Budd-daliadau lles

Eich hawliau cyfreithiol

Gwasanaeth am ddim a chyfrinachol a delir amdano gan gymorth cyfreithiol
0845 345 4 345 **www.communitylegaladvice.org.uk**

cyngor cyfreithiol cymunedol

Mae llawer o wahanol fathau o fudd-daliadau ar gael, gan ddibynnu ar eich anghenion ach amgylchiadau. Ond efallai nad ydych yn gwybod beth y mae gennych hawl i'w dderbyn, neu sut i ymgeisio am fudd-dal, neu beth i'w wneud os credwch eich bod wedi cael eich gwrthod yn annheg rhag derbyn budd-dal. Mae'r daflen hon yn esbonio sut y mae'r system fudd-daliadau yn gweithio ar y funud, ond mae mwy o newidiadau ar y ffordd yn ddiweddarach yn 2008.

- Pwy all hawlio budd-daliadau? 3
- Os ydych ar incwm isel 3
- Os ydych chi'n cael babi neu'n mabwysiadu plentyn 5
- Os oes gennych blant i ofalu amdanynt 6
- Os ydych yn ddi-waith 6
- Os ydych yn wael ac yn methu gweithio 7
- Os oes gennych anabledd 8
- Os ydych yn dechrau gweithio 9
- Os ydych wedi ymddeol, neu yn ymddeol 10
- Os bydd eich gŵr neu wraig neu bartner yn marw 11
- Ble dylwn i hawlio? 12
- Beth sydd raid i mi wneud pan fyddaf yn gwneud cais? 14
- Beth os ydw i'n anghytuno gyda phenderfyniad ynglŷn â'm cais? 17
- Beth os ydw i wedi cael fy nhrin yn wael? 20
- Y Ddeddf Hawliau Dynol 21
- Rhagor o gymorth 22

Maer taflenni yn y gyfres hon yn rhoi amlinelliad i chi o'ch hawliau cyfreithiol. Nid ydynt yn arweiniad llawn ir gyfraith ac nid ydynt wedi eu bwriadu i fod yn arweiniad o ran sut y bydd y gyfraith yn berthnasol i chi neu i unrhyw sefyllfa benodol. Mae'r taflenni'n cael eu diweddaru'n gyson ond gall y gyfraith fod wedi newid ers i hon gael ei hargraffu, felly gall yr wybodaeth ynddi fod yn anghywir neu wedi dyddio.

Os oes gennych broblem, bydd angen i chi gael rhagor o wybodaeth neu gyngor personol i benderfynu beth ywr ffordd orau o'i datrys. Gweler 'Rhagor o gymorth' ar dudalen 22 am ffynonellau gwybodaeth a chyngor.

Pwy all hawlio budd-daliadau?

Mae'r rhan fwyaf o bobl yn y DU yn debygol o fod yn gymwys i dderbyn rhyw fath o fudd-daliadau lles neu gredyd treth ar ryw adeg neu'i gilydd, ond mae llawer ohonynt ar eu colled am nad ydynt yn gwybod am beth y gallant wneud cais.

Os ydych wedi dod o wlad arall i fyw yma, efallai na fyddwch yn gallu hawlio'r cyfan o'r budd-daliadau hyn, yn ddibynnol ar eich statws mewnfudo a'ch amgylchiadau.

Pa fathau o fudd-daliadau a allaf eu hawlio?

Yma rydym yn esbonio'r gwahanol fathau o fudd-daliadau a chredydau treth, a sut y gallwch benderfynu a allech chi eu hawlio. Pwrpas budd-daliadau a chredydau treth yw cynorthwyo pobl sydd mewn angen. Mae yna wahanol fathau o fudd-daliadau ar gyfer gwahanol fath o angen. Os credwch chi y gallech fod yn gymwys i dderbyn unrhyw un o'r budd-daliadau a ddisgrifir, gallwch gael taflenni manylach gan yr Adran Gwaith a Phensiynau (AGPh) a Chyllid a Thollau Ei Mawrhydi (CThEM), yn esbonio:

- sut maent yn gweithio;
- p'un a ydych yn gymwys; a
- faint yw eu gwerth.

Am wybodaeth ynglŷn â sut i wneud cais am y budd-daliadau y cyfeirir atynt yn y daflen hon, gweler 'Ble dylwn i hawlio?' ar dudalen 12.

Os ydych ar incwm isel

Os yw eich incwm yn isel, mae amryw o fudd-daliadau y gallwch eu hawlio a all roi swm sylfaenol i chi fyw arno. I'w cael nhw, bydd angen i chi lwyddo mewn 'prawf modd', felly bydd raid i chi roi manylion am eich incwm a'ch cynilion. Os ydych yn byw gyda chymar, partner sifil, neu eich gŵr neu wraig, ystyrir eu hincwm a'u cynilion hwy hefyd wrth benderfynu a allwch dderbyn y budd-daliadau hyn.

Cymhorthdal Incwm

Mae hwn ar gael i bobl ar incwm isel nad ydynt yn gorfod chwilio am waith cyn allant dderbyn budd-daliadau, megis:

- cynhalwyr pobl anabl;
- rhieni sengl gyda phlant (ar hyn o bryd, plant dan 16, ond mae hyn yn newid i blant dan 12 o Dachwedd 2008); a
- phobl sy'n sâl neu'n anabl (os ydych yn hawlio am y tro cyntaf, o Dachwedd 2008 byddwch yn cael Lwfans Cyflogaeth a Chymorth ar sail incwm yn hytrach na Chymhorthdal Incwm).

I hawlio, mae'n rhaid i chi fod dan 60 mlwydd oed a ddim yn gweithio, neu'n gweithio llai na 16 awr yr wythnos. Os oes gennych bartner sy'n byw gyda chi, rhaid ei fod yntau hefyd beidio bod yn gweithio neu'n gweithio llai na 24 awr yr wythnos er mwyn i chi dderbyn Cymhorthdal Incwm.

Os ydych yn hawlio Cymhorthdal Incwm, a chi yw rhiant plentyn sy'n byw gyda chi, ond mae ei riant arall yn byw rhywle arall, ar hyn o bryd byddwch yn cael eich trin fel eich bod wedi ymgeisio i'r Asiantaeth

Cynnal Plant (ACP). Bydd yn rhaid i chi roi gwybodaeth am riant arall y plentyn, oni bai y byddai hyn yn eich rhoi chi neu'ch plentyn mewn perygl. Os ydych yn dal y wybodaeth hon yn ôl heb unrhyw reswm da dros wneud hynny, mae'n bosibl y bydd eich Cymhorthdal Incwm yn cael ei ostwng. Mae'r Llywodraeth yn bwriadu rhoi terfyn ar y rheol sy'n ystyried bod pobl ar Gymhorthdal Incwm wedi gwneud cais i'r ACP cyn diwedd 2008.

Lwfans Ceisio Gwaith

Gallwch gael hwn os ydych yn chwilio am waith. Gweler 'Os ydych yn ddi-waith' ar dudalen 5.

Credyd Treth Gwaith

Mae hwn ar gael i ychwanegu at enillion isel. Efallai eich bod yn gymwys:

- os oes gennych blentyn neu os ydych yn anabl, a'ch bod chi neu rywun yr ydych yn byw gydag o fel partner yn gweithio am 16 awr neu fwy yr wythnos;
- os ydych yn hŷn na 50 oed, wedi bod ar fudd-daliadau ac yna'n dechrau gweithio am 16 awr yr wythnos neu ragor; neu
- os ydych chi (neu'ch partner) yn hŷn na 25 oed ac yn gweithio am o leiaf 30 awr yr wythnos.

Y Gronfa Gymdeithasol

Mae hon yn system o fenthyciadau a grantiau i helpu i dalu am gostau annisgwyl neu daliadau ar gyfer digwyddiadau penodol fel costau angladd neu famolaeth, neu ddodrefn neu offer tŷ. Mae'r rhan fwyaf o daliadau'r Gronfa Gymdeithasol ar gyfer pobl sydd eisoes ar un o'r budd-daliadau sy'n seiliedig ar brawf modd.

Budd-dal Tai a Budd-dal Treth Cyngor

Telir y rhain gan eich awdurdod lleol (cyngor) a gallant eich helpu i dalu eich rhent neu dreth cyngor os ydych ar incwm isel, p'un a ydych chi'n gweithio ai peidio.

Costau llogau morgais

Mae'n bosibl y telir peth neu'r cyfan o'r llog ar eich morgais os oes gennych forgais ar eich cartref ac os ydych yn gymwys i dderbyn Cymhorthdal Incwm, Credyd Pensiwn neu Lwfans Ceisio Gwaith yn seiliedig ar incwm. Fel arfer bydd y costau llogau morgais yn cael eu talu yn uniongyrchol i'r banc neu'r gymdeithas adeiladu y mae gennych forgais gyda nhw. Ni thelir y costau rhain i chi pan fyddwch yn derbyn budd-dal am y tro cyntaf, gan fod yna gyfnod aros fel rheol. Gallai rhai misoedd fynd heibio cyn i chi dderbyn yr holl arian, a hyd yn oed bryd hynny efallai na fydd yn ddigon i dalu am eich holl daliadau morgais.

Efallai y gallwch dderbyn mathau eraill o help os ydych ar incwm isel a gyda phlant i'w cynnal. Gweler 'Os oes gennych blant i ofalu amdanynt' ar dudalen 6.

Os ydych chi'n cael babi neu'n mabwysiadu plentyn

Os oes gennych waith, efallai y byddwch yn derbyn Tâl Mamolaeth Statudol (SMP) neu Dâl Mabwysiadu Statudol (SAP) gan eich cyflogwr. Y budd-daliadau hyn yw'r isafswm y mae'n rhaid i gyflogwr ei dalu i chi tra eich bod o'r gwaith yn cael babi neu pan fyddwch newydd fabwysiadu plentyn. Mae p'un a gewch chi'r budd daliadau hyn yn dibynnu ar faint rydych yn ei ennill a pha mor hir yr ydych wedi bod yn gweithio.

Telir SMP neu SAP am 39 wythnos.

Os nad ydych yn gymwys i gael SMP, efallai y byddwch yn medru hawlio Lwfans Mamolaeth gan yr Adran Gwaith a Phensiynau yn ei le.

Efallai y byddwch yn medru hawlio Tâl Tadolaeth Statudol am hyd at bythefnos o seibiant tadolaeth os:

- mai chi yw tad babi newydd; a bydd gennych beth cyfrifoldeb am fagu'r plentyn; neu
- os yw eich partner (gan gynnwys partner o'r un rhyw) newydd roi genedigaeth neu fabwysiadu babi a bydd y ddau ohonoch yn gyfrifol am fagu'r plentyn.

Mae p'un ai y gallwch dderbyn Tâl Tadolaeth Statudol ai peidio yn dibynnu ar:

- eich enillion; a
- pha mor hir yr ydych wedi bod yn gweithio.

Os nad chi yw tad biolegol y plentyn, gallwch dderbyn Tâl Tadolaeth Statudol os ydych yn byw gyda'r fam neu'r mabwysiadwr a'r plentyn, yn unig.

Am fwy o wybodaeth ynghylch beth allwch fod yn gymwys i'w dderbyn gan eich cyflogwr os ydych yn cael babi neu'n mabwysiadu, gweler y daflen Cyngor Cyfreithiol Cymunedol, 'Cyflogaeth'.

Os ydych yn cael baban gallwch dderbyn presgripsiynau a thriniaeth ddeintyddol am ddim tra'ch bod yn feichiog ac am flwyddyn ar ôl genedigaeth eich baban. Os ydych ar incwm isel ac yn derbyn rhai budd-daliadau neu gredydau treth, mae'n bosibl y byddwch hefyd yn gymwys am daliad lwmp swm (unigryw) a elwir yn Grant Mamolaeth Cychwyn Cadarn. Mae'n rhaid i chi hawlio hwn o fewn tri mis i chi roi genedigaeth i'ch plentyn, ond mewn rhai achosion gallwch ei hawlio cyn i chi roi genedigaeth. Gallwch hefyd wneud cais dros blentyn mabwysiedig sy'n ieuengach na blwydd oed, ond rhaid i chi wneud cais o fewn tri mis i'r gorchymyn mabwysiadu.

Os oes gennych blant i ofalu amdanynt

Os oes gennych blentyn, mae sawl budd-dal y gallwch ei hawlio.

- Fel arfer gallwch hawlio Budd-dal Plant ar gyfer eich plentyn neu blant, beth bynnag fo eich enillion.
- Os ydych yn gweithio a mae eich incwm yn is na lefel benodol, byddwch yn gymwys i dderbyn Credyd Treth Plant hefyd.
- Os ydych chi neu'ch partner yn gweithio am 16 awr yr wythnos neu ragor a'ch bod ar incwm isel, efallai y gallwch hawlio Credyd Treth Gwaith a all roi lwfansau ychwanegol tuag at gostau gofal plant.
- Os yw eich plentyn yn anabl, efallai y byddwch yn medru hawlio Lwfans Byw i'r Anabl iddynt, a Lwfans Cynhaliwr am edrych ar ei ôl.
- Os ydych yn gofalu am blentyn y mae ei ddau riant wedi marw, neu os bydd un wedi marw a'r llall naill ai ar goll neu yn y carchar, efallai y byddwch yn medru hawlio Lwfans Gwarcheidwad.

Os oes gennych blentyn a anwyd wedi 1 Medi 2002, yn arferol byddwch yn derbyn talebau i agor cyfrif Cronfa Ymddiriedolaeth Plentyn, sy'n fath o gyfrif cynilo neu fuddsoddi ar gyfer plant. Nid oes rhaid i chi wneud cais am y talebau hyn – dylent gael eu hanfon i chi yn awtomatig os ydych wedi derbyn Budd-dal Plant. Mae'r cyfrif yn perthyn i'r plentyn, ond ni allant gael yr arian hyd nes y byddant yn 18 oed. Mae mwy o wybodaeth ar wefan y Gronfa Ymddiriedolaeth Plentyn – gweler 'Rhagor o gymorth' ar dudalen 22.

Os ydych yn ddi-waith

Gallwch gael Lwfans Ceisio Gwaith os ydych yn gallu gweithio ond nad oes gennych waith neu os ydych yn gweithio llai na 16 awr yr wythnos. Mae dau fath o Lwfans Ceisio Gwaith:

- ar sail cyfraniadau; ac
- ar sail incwm (ar sail prawf modd).

Efallai y byddwch yn gymwys i dderbyn y budd-dal ar sail cyfraniadau os ydych wedi talu cyfraniadau Yswiriant Gwladol yn y blynyddoedd diweddar. Os ydych ar incwm isel, efallai y byddwch yn cael Lwfans Ceisio Gwaith ar sail incwm wedi ei gyfrifo ar sail eich amgylchiadau a'ch incwm, un ai ar ei ben ei hun neu yn ychwanegol i'r Lwfans Ceisio Gwaith ar sail cyfraniadau.

Er mwyn bod yn gymwys i dderbyn budd-dal, rhaid i chi brofi i'r Ganolfan Waith eich bod yn chwilio am waith a rhaid i chi fod ar gael i weithio (fel arfer, ni allwch chi fod yn fyfyriwr llawn amser, er enghraifft).

Os ydych yn hawlio Lwfans Ceisio Gwaith ar sail cyfraniadau ar ei ben ei hun, rydych yn hawlio drosoch eich hun yn unig. Os ydych yn derbyn unrhyw Lwfans Ceisio Gwaith ar sail incwm,

rydych yn hawlio drosoch eich hun a thros bartner sy'n byw gyda chi (gan gynnwys partner o'r un rhyw). Bydd yr Adran Gwaith a Phensiynau (AGPh) yn ystyried incwm a chynilion eich partner hefyd wrth benderfynu a allwch dderbyn Lwfans Ceisio Gwaith ar sail incwm. Ni allwch dderbyn Lwfans Ceisio Gwaith ar sail incwm os yw eich partner yn gweithio mwy na 24 awr yr wythnos.

Rhaid i rai cyplau gyflwyno hawliadau ar y cyd ar gyfer Lwfans Ceisio Gwaith, sy'n golygu bod rhaid i'r ddau chwilio am waith a mynychu'r ganolfan waith.

Os ydych yn ymgeisio am Lwfans Ceisio Gwaith ar sail incwm a chi ydy rhiant plentyn sy'n byw gyda chi, ond mae'r rhiant arall yn byw rhywle arall, ar hyn o bryd byddwch yn cael eich trin fel eich bod wedi ymgeisio i'r Asiantaeth Cynnal Plant (ACP). Bydd yn rhaid i chi roi gwybodaeth am riant arall eich plentyn, oni bai y byddai hyn yn eich rhoi neu'ch plentyn mewn perygl. Os ydych yn dal y wybodaeth hon yn ôl heb unrhyw reswm da, mae'n bosibl y bydd eich Cymhorthdal Incwm yn cael ei ostwng. Erbyn diwedd 2008 mae'r Llywodraeth yn bwriadu rhoi terfyn ar y rheol sy'n ystyried bod pobl ar Gymhorthdal Incwm wedi gwneud cais i'r ACP.

Os ydych yn wael ac yn methu gweithio

Os ydych gartref o'r gwaith oherwydd salwch gallwch fod yn gymwys i dderbyn:

- Tâl Salwch Statudol (a thâl salwch cytundebol gan eich cyflogwr o bosibl) am y 28 wythnos cyntaf;
- Budd-dal Analluogrwydd (ar ben unrhyw daliadau salwch cytundebol yr ydych yn eu derbyn gan eich cyflogwr), os byddwch yn parhau'n wael ac na allwch weithio ar ôl 28 wythnos.

Os ydych yn hunangyflogedig neu'n ddi waith, ni allwch dderbyn Tâl Salwch Statudol, ond mae'n bosibl y byddwch yn medru hawlio Budd-dal Analluogrwydd tra'ch bod yn wael os ydych wedi talu cyfraniadau Yswiriant Gwladol o fewn y tair blynedd diwethaf. Fel arall, efallai y gallwch wneud cais am Gymhorthdal Incwm, ond yn unig os ydych ar incwm isel ac yn bodloni'r amodau eraill.

Os ydych yn wael a bu i chi fethu gweithio pan oeddech dan 20 (neu 25 mewn rhai amgylchiadau penodol) ac heb weithio ers hynny, efallai eich bod yn gymwys i dderbyn Budd-dal Analluogrwydd. Fel arall, efallai y byddwch yn derbyn Cymhorthdal Incwm os ydych ar incwm isel ac yn bodloni'r amodau eraill. Mae'n bosibl y bydd rhai pobl yn derbyn Lwfans Anabledd Difrifol oherwydd na allant

weithio, ond ni allwch wneud hawl newydd ar gyfer y budd-dâl hwn yn awr oherwydd y mae wedi dod i ben.

Yn Nhachwedd 2008 mae'r system yn newid ar gyfer pobl sydd angen hawlio budd-daliadau oherwydd eu bod yn wael ac yn methu gweithio. Yn hytrach na Chymhorthdal Incwm a Budd-dal Analluogrwydd, bydd angen i chi wneud cais am fudd-dal newydd a elwir yn Lwfans Cyflogaeth a Chymorth. Fodd bynnag, os ydych eisoes yn hawlio Cymhorthdal Incwm a Budd-dal Analluogrwydd, ni fyddwch yn newid i'r budd-dal newydd.

Os y bu i chi dreulio cyfnod af fudd-daliadau oherwydd eich bod rhy wael i weithio, a'ch bod dal yn anabl pan ddychwelwch i'r gwaith, efallai y byddwch yn gymwys i dderbyn Credyd Treth Gwaith ar raddfa uwch i ychwanegu at eich enillion.

Os cawsoch eich anafu yn y gwaith

Yn ogystal â'r Tâl Salwch Statudol neu'r Budd-dal Analluogrwydd y soniwyd amdanynt eisoes, efallai y byddwch yn medru hawlio Budd-daliadau Anafiadau Diwydiannol os:

- cewch ddamwain yn y gwaith; neu
- eich bod yn dioddef o un o restr o afiechydon a achoswyd gan eich gwaith.

Rhaid i chi fod wedi bod yn gyflogedig pan gawsoch yr anaf neu'r afiechyd, a rhaid i'r anaf neu afiechyd fod wedi digwydd oherwydd eich gwaith. Er mwyn hawlio'r budd-dâl hwn, nid oes rhaid i chi brofi bod eich cyflogwr ar fai, ond fe ddylech gael gair gyda chyfreithiwr hefyd rhag ofn bod achos sifil yn erbyn eich cyflogwr.

Os oes gennych anabledd

Gan ddibynnu ar ba mor hir y mae salwch neu anabledd yn para a'r modd y mae eich anabledd yn eiffeithio arnoch, gallwch fod yn gymwys ar gyfer:

- Lwfans Byw i'r Anabl os ydych dan 65; neu
- Lwfans Gweini os ydych chi dros 65.

Mae Lwfans Byw i'r Anabl ar gyfer pobl sydd â phroblemau symudedd neu sydd angen cymorth tuag at ofal personol (er enghraifft, codi a gwisgo, ymolchi a golchi dillad), neu'r ddau. Mae Lwfans Gweini ar gyfer pobl sydd ond angen cymorth tuag at ofal personol yn unig. Os ydych yn 65 neu'n hŷn a bod gennych broblemau symudedd, ni allwch hawlio budd-dal i gynorthwyo tuag at hyn, oni bai eich bod eisoes wedi bod yn derbyn y budd-dal cyn i chi droi'n 65.

Gallwch hawlio Lwfans Byw i'r Anabl a Lwfans Gweini os ydych yn gweithio neu beidio. Nid yw'r lwfansau hyn yn cael eu trin fel incwm ar gyfer y diben o benderfynu a ydych yn gymwys i dderbyn budd-daliadau a roddir ar sail prawf modd, fel Cymhorthdal Incwm, credydau treth, Credyd Pensiwn, Budd-dal Treth Cyngor neu Fudd-dal Tai. Nid yw Lwfans Byw i'r Anabl na Lwfans Gweini yn ddibynnol ar unrhyw incwm

sydd gennych, ac nid oes rhaid i chi fod wedi talu unrhyw gyfraniadau Yswiriant Gwladol i'w derbyn nhw.

Os cawsoch eich anafu neu os aethoch yn sâl oherwydd gwasanaethu yn y lluoedd arfog, mae'n bosibl hefyd y byddwch yn medru hawlio pensiwn rhyfel neu gymorth ariannol gan Gynllun Iawndal y Lluoedd Arfog. Am fwy o fanylion am hyn, gweler y daflen Cyngor Cyfreithiol Cymunedol 'Feteraniaid'.

Efallai eich bod yn gymwys am ostyngiad yn eich Treth Cyngor os:

- bydd eich cartref yn cael ei addasu neu'n gorfod bodloni gofyniadau eraill oherwdd eich anabledd; neu
- os ydych angen defnyddio cadair olwyn i symud o gwmpas eich cartref, sy'n golygu bod arnoch angen tŷ neu fflat mwy nag y byddech ei angen fel arall.

Os ydych yn gofalu am berson anabl

Os ydych chi'n gofalu am berson gydag anabledd, efallai eich bod yn gymwys i dderbyn Lwfans Cynhaliwr os ydych:

- yn treulio 35 awr yr wythnos o leiaf yn gofalu; ac
- yn ennill £95 yr wythnos neu lai.

Nid oes yn rhaid i chi fod wedi talu cyfraniadau Yswiriant Gwladol i dderbyn Lwfans Cynhaliwr. Fe'i hystyrir wrth gyfrifo a ydych yn gymwys ar gyfer budd-daliadau eraill sy'n seiliedig ar brawf modd.

Os ydych yn dechrau gweithio

Os ydych yn stopio bod yn gymwys ar gyfer Cymhorthdal Incwm, Lwfans Ceisio Gwaith ar sail Incwm, Lwfans Anabledd Difrifol neu Budd-dal Analluogrwydd ar ôl nifer o fiseodd oherwydd rydych yn dechrau gweithio neu oherwydd eich bod yn cynyddu eich oriau gwaith neu eich enillion, mae'n bosibl y byddwch yn medru cael 'taliadau estynedig' o Fudd-dal Tai a Budd-dal Treth Cyngor. Golyga hyn y byddwch yn parhau i dderbyn y budd-daliadau hyn am bedair wythnos ar yr un raddfa â chyn i chi ddechrau gweithio.

O fewn pedair wythnos o ddechrau gweithio, rhaid i chi ddweud wrth yr adran Treth Cyngor yn eich cyngor lleol a'r swyddfa sy'n talu eich budd-daliadau am y newid yn eich amgylchiadau.

Os ydych wedi bod yn derbyn Cymhorthdal Incwm neu Lwfans Ceisio Gwaith ar sail incwm gyda swm ar gyfer eich taliadau llog morgais ac rydych yn dod oddi ar y budd-daliadau hyn ar ôl nifer o fisoedd i fynd i weithio, mae'n bosibl y byddwch yn medru parhau i gael cymorth gyda llog morgais am bedair wythnos. Mae hyn i'ch cynorthwyo tan i chi dderbyn eich cyflog. Ond rhaid i chi ddweud wrth bwy bynnag sy'n talu eich budd-dal cyn gynted ag y byddwch yn dechrau gweithio, fel arall mae'n bosibl na fyddwch yn ei dderbyn.

Os ydych yn dod oddi ar Cymhorthdal Incwm, Lwfans Ceisio Gwaith, Budd-dal Analluogrwydd neu Lwfans Anabledd Difrifol wedi sawl mis oherwydd eich bod yn dechrau gweithio, mae'n bosibl hefyd y bydd gennych hawl i gael lwmp swm unigryw a elwir yn Grant Swydd. Rhaid i chi ddweud wrth bwy bynnag sy'n talu eich budd-dal am y newid yn eich amgylchiadau cyn gynted ag y byddwch yn dechrau gweithio.

Mae'n bosibl y byddwch yn medru derbyn mathau eraill o gymorth, megis cymorth tuag at ofal plant, pan fyddwch yn dechrau gweithio neu'n chwilio am waith. Er enghraifft os ydych yn unig riant, efallai y gallwch gael arian ychwanegol ar ben eich cyflog am y flwyddyn gyntaf mewn swydd. Gofynnwch i'r Ganolfan waith os oes yna unrhyw gymorth arall yr ydych yn gymwys ar ei gyfer.

Os ydych yn derbyn cynhaliaeth ar gyfer eich plant

Os ydych yn derbyn cynhaliaeth cynnal plant dan y rheolau oedd yn gymwys cyn mis Mawrth 2003, bydd hwn yn cael ei gynnwys yn yr asesiad ar gyfer eich Cymhorthdal Incwm neu Lwfans Ceisio Gwaith ar sail incwm. Os byddwch wedyn yn dechrau gweithio neu'n cynyddu eich oriau neu'ch tâl ac mae'r budd-daliadau hyn yn stopio, mae'n bosibl y byddwch yn medru hawlio Bonws Cynnal Plant unigryw. Rhaid i chi hawlio hwn o fewn pedair wythnos i'r budd-dal yn dod i ben.

Os ydych yn derbyn cynhaliaeth dan y rheolau sydd wedi bod yn gymwys ers mis Mawrth 2003, yna bydd £10 yr wythnos o'ch cynhaliaeth yn cael ei ddiystyru yn yr asesiad ar gyfer eich Cymhorthdal Incwm neu Lwfans Ceisio Gwaith ar sail incwm. Mae'r Llywodraeth yn disgwyl y gellir cynyddu'r swm a ddiystyrir, a'i ymestyn i'r holl rieni sy'n cael cynhaliaeth cynnal plant, erbyn diwedd 2008. Pan fydd hyn yn digwydd, bydd Bonws Cynhaliaeth Plant yn dod i ben.

Bydd unrhyw gynhaliaeth yr ydych yn ei derbyn yn cael ei hanwybyddu yn yr asesiad ar gyfer eich credydau treth, a bydd £15 yr wythnos o'ch cynhaliaeth yn cael ei anwybyddu yn yr asesiad ar gyfer eich Budd-dal Tai a Budd-dal Treth Cyngor. O 27 Hydref 2008 bydd hyn yn newid, a bydd pob cynhaliaeth plant yn cael ei ddiystyru pan asesir y budd-daliadau yma.

Os ydych wedi ymddeol, neu yn ymddeol

Gallwch dderbyn y Pensiwn (ymddeol) Gwladol pan fyddwch yn cyrraedd yr oedran pensiwn (65 i ddynion a 60 i fenywod ar hyn o bryd). Nid oes rhaid i chi ymddeol i dderbyn Pensiwn Gwladol – gallwch ei dderbyn p'un a fyddwch yn dal i weithio neu beidio.

Bydd y swm y byddwch yn ei dderbyn yn dibynnu ar faint o Yswiriant Gwladol yr ydych chi, neu eich gŵr neu'ch gwraig neu eich partner sifil wedi ei dalu neu a gredydwyd i chi yn ystod eich

oes waith. Fodd bynnag, pan fyddwch yn 80, mae'n bosibl y byddwch yn cael peth Pensiwn Gwladol p'un a ydych wedi talu Yswiriant Gwladol ai peidio.

Pan fyddwch yn cyrraedd oedran pensiwn, gallwch ddewis gohirio derbyn eich Pensiwn Gwladol. Yn ddibynnol ar ba hyd yr ydych yn gohirio, pan fyddwch yn ei hawlio yn y pen draw, gallwch dderbyn un ai:

- lwmp swm (ynghyd â'ch pensiwn wythnosol ar y raddfa arferol); neu
- swm uwch o bensiwn wythnosol.

Mae'n bosibl y byddwch yn medru derbyn budd-dal arall, a elwir yn Credyd Pensiwn os ydych yn 60 neu'n hŷn. Mae hyn yn ddibynnol ar eich amgylchiadau ond gallwch ei dderbyn p'un a ydych yn gweithio ai peidio. Mae dwy ran iddo:

- Credyd Gwarant; a
- Chredyd Cynilion.

Gallwch dderbyn un o'r rhannau neu'r ddwy ran ond gallwch dderbyn y Credyd Cynilion os ydych chi neu'ch partner yn 65 neu'n hŷn yn unig.

Mae'r Credyd Gwarant yn ychwanegiad i'ch incwm i lefel a warentir ar gyfer eich amgylchiadau chi. Gallech dderbyn Credyd Cynilion os oes gennych gynilion neu incwm arall yn ogystal â'ch pensiwn sylfaenol. Gall Credyd Cynilion gael ei dalu ar ei ben ei hun neu yn ogystal â Chredyd Gwarant. Os ydych yn 60 neu'n hŷn, byddwch hefyd yn derbyn presgripsiynau am ddim a gallech dderbyn Taliad Tanwydd yn y Gaeaf bob blwyddyn, yn ôl eich amgylchiadau.

Os bydd eich gŵr neu wraig neu bartner sifil yn marw

Os bydd eich gŵr neu wraig neu bartner sifil yn marw a'u bod wedi talu cyfraniadau Yswiriant Gwladol yn y gorffennol, efallai y gallwch hawlio Taliad Profedigaeth mewn lwmp swm o £2,000.

Os oes gennych blant, a'ch bod yn iau nac oed pensiwn, efallai eich bod yn gymwys i dderbyn Lwfans Rhieni Gweddw.

Os oeddech yn 45 neu'n hŷn ond yn iau nac oed pensiwn pan fuodd eich gŵr neu wraig neu bartner sifil farw, ac rydych yn dal i fod yn iau nac oed pensiwn, efallai y gallwch gael Lwfans Profedigaeth am hyd at flwyddyn wedi i'ch gŵr neu wraig farw. Ni allwch gael Lwfans Rhieni Gweddw a Lwfans Profedigaeth ar yr un pryd. Gellir atal Lwfans Rhieni Gweddw a Lwfans Profedigaeth os ydych yn priodi, yn ymrwymo i bartneriaeth sifil neu'n dechrau byw gyda rhywun fel partner.

Os bu eich gŵr neu wraig neu bartner sifil farw o ganlyniad i wasanaeth gyda'r lluoedd arfog, mae'n bosibl eich bod yn gymwys i dderbyn Pensiwn Gŵr Gweddw neu Bensiwn Gwraig Weddw Rhyfel, neu gymorth ariannol gan Gynllun Iawndal y Lluoedd Arfog. Am fwy am hyn, gweler y daflen Cyngor Cyfreithiol Cymunedol, 'Feteraniaid'.

Os ydych ar incwm isel, gallwch hefyd fod yn gymwys i dderbyn budd-daliadau eraill ar sail prawf modd a Grant Angladd gan y Gronfa Gymdeithasol.

Grwpiau arbennig o bobl

Ar gyfer y rhan fwyaf o fudd-daliadau y sonnir amdanynt yn y daflen hon, mae rheolau arbennig yn berthnasol i grwpiau arbennig o bobl fel:

- cleifion mewn ysbyty;
- pobl o dramor;
- myfyrwyr;
- carcharorion; a
- y rhai sy'n byw mewn cartrefi preswyl neu lety preswyl arall.

Dylech gael rhagor o gyngor os ydych chi'n perthyn i unrhyw un o'r grwpiau hyn.

Ble dylwn i hawlio?

Mae asiantaethau ac awdurdodau gwahanol yn gyfrifol am fudd-daliadau gwahanol. Rhaid i chi gysylltu gyda'r corff cywir i ymgeisio am bob budd-dâl. Gweler 'Rhagor o gymorth' ar dudalen 22 am eu rhifau ffôn a manylion eraill.

Canolfan Byd Gwaith

Mae Canolfan Byd Gwaith yn delio â'r mwyafrif o geisiadau gan bobl o oed gwaith. Dylech ddechrau eich cais drwy ffonio'r Ganolfan Byd Gwaith ar y rhif rhadffôn cenedlaethol (gweler 'Rhagor o gymorth' ar dudalen 22). Os ydych yn ffonio o ffôn symudol, ac yn gorfod talu am yr alwad, gallwch ofyn i'r Ganolfan Byd Gwaith eich ffonio'n ôl.

Dyddiad y cais fydd dyddiad eich galwad ffôn. Y ffordd orau i gychwyn cais yw dros y ffôn, ond os nad ydych eisiau ffonio, gallwch naill ai:

- fynd i'ch Canolfan Byd Gwaith leol i ofyn am gymorth; neu
- lawrlwytho ffurflenni cais neu wneud cais ar-lein (ar gyfer y rhan fwyaf o fudd-daliadau) o wefan Directgov - gweler 'Rhagor o gymorth' ar dudalen 22 am y cyfeiriad. Ond os cewch eich ffurflen gais heb gysylltu â'r Ganolfan Byd Gwaith yn gyntaf, dyddiad eich cais fydd y dyddiad pan fydd y swyddfa yn derbyn eich ffurflen.

Y Gwasanaeth Pensiynau, Anabledd a Gofalwyr

Mae'r Gwasanaeth Pensiynau, Anabledd a Gofalwyr yn delio â cheisiadau am Bensiwn Gwladol a Chredyd Pensiwn gan bobl dros 60 oed, a gyda cheisiadau am Lwfans Byw i'r Anabl, Lwfans Gweini a Lwfans Gofalwr.

Fel rheol, anfonir atoch ffurflen gais am Bensiwn Gwladol cyn i chi gyrraedd oedran pensiwn gwladol. Gallwch hefyd ddechrau gwneud eich cais am Bensiwn Gwladol neu Gredyd Pensiwn drwy ffonio'r Gwasanaeth Pensiwn, Anabledd a Gofalwyr. Gall y staff sydd

yno eich helpu i lenwi ffurflen gais dros y ffôn.

I hawlio budd-daliadau eraill gan y Gwasanaeth Pensiynau, Anabledd a Gofalwyr:

- am Lwfans Gweini neu Lwfans Byw i'r Anabl, dylech ffonio'r Llinell Ymholiadau Budd-daliadau; neu
- am Lwfans Cynhaliwr, dylech ffonio'r Uned Lwfans Cynhaliwr.

Fel arall, gallwch lawrlwytho ffurflen gais am y budd-daliadau hyn, neu llenwi ffurflen gais ar-lein ar wefan Directgov (cewch y cyfeiriad yn 'Rhagor o gymorth' ar dudalen 22). Fodd bynnag, os gwnewch gais heb gysylltu â'r Gwasanaeth Pensiynau, Anabledd a Gofalwyr, y Llinell Ymholiadau Budd-daliadau neu'r Uned Lwfans Cynhaliwr yn gyntaf, dyddiad eich cais fydd y dyddiad pan fydd y swyddfa briodol yn derbyn eich cais.

Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi (HMRC)

Mae'r HMRC yn ymdrin â:

- chredydau treth, drwy ei Swyddfa Credyd Treth;
- Budd-dal Plant a Lwfans Gwarcheidwad, drwy ei Swyddfa Budd-dal Plant;
- cwestiynau ynghylch Yswiriant Gwladol.; a'r
- Gronfa Ymddiriedolaeth Plentyn.

Gallwch gael ffurflenni cais ar gyfer credydau treth, Budd-dal Plant a Lwfans Gwarcheidwad gan:

- unrhyw swyddfa AGP (DWP) – er enghraifft, Canolfan waith;
- canolfannau ymholiadau HMRC;
- gwefan HMRC; a
- y llinellau cymorth ffôn ar gyfer credydau treth a Budd-dal Plant.

Os ydych yn cael baban, dylech dderbyn pecyn Budd-dal Plant yn yr ysbyty ynghyd â gwybodaeth a ffurflen gais. Os na dderbyniwch becyn, gofynwch i'ch bydwraig neu'ch ymwelydd iechyd.

Eich awdurdod lleol (cyngor)

Eich cyngor lleol sy'n ymdrin â Budd-dal Tai a Budd-dal Treth Cyngor. Gallwch gael ffurflen gais gan Adran Budd-dal Tai a Budd-dal Treth Cyngor eich awdurdod lleol.

Personél Gwasanaeth ac Asiantaeth y Fetaraniaid

Cyfeirir ceisiadau am Bensiynau Rhyfel neu am gymorth ariannol gan Gynllun Iawndal y Lluoedd Arfog at yr asiantaeth hon, sy'n rhan o'r Weinyddiaeth Amddiffyn, er y bydd y rhan fwyaf o gyrff gwasanaeth milwrol yn medru eich helpu gyda'ch cais. Gweler y daflen Cyngor Cyfreithiol Cymunedol, 'Fetaraniaid', am fwy o wybodaeth.

Beth sydd raid i mi wneud pan fyddaf yn gwneud cais?

Ar gyfer llawer math o fudd-dal, bydd raid i chi ddarparu llawer o wybodaeth bersonol amdanoch eich hun, eich teulu a'ch arian. Efallai y bydd rhaid i chi ddarparu prawf eich bod yn gymwys ar gyfer y budd-dal hefyd. Rhaid i chi roi eich rhif Yswiriant Gwladol ac efallai y bydd rhaid i chi brofi'ch hunaniaeth i ddangos bod y rhif YG yn perthyn i chi. Os nad oes gennych chi rif Yswiriant Gwladol, rhaid i chi ymgeisio am un. Yn ôl y budd-dal, efallai bydd rhaid i chi ddod i gyfweliad ynghylch gwaith a hyfforddiant fel rhan o'ch cais.

Os na fyddwch yn llenwi'r ffurflen gais yn iawn, efallai na fyddwch yn cael y budd-dal. Os ydych yn llenwi'r ffurflenni eich hun ac yn dymuno cael cyngor ynghylch eich ffurflen gais, cysylltwch â'ch Swyddfa Cyngor ar Bopeth leol.

Gallwch hawlio ar eich cyfer chi eich hun ac, am rai budd-daliadau, ar gyfer partner sy'n byw gyda chi ac ar gyfer eich plant dibynnol. Gallwch hawlio hefyd ar gyfer pobl eraill os nad ydynt yn medru edrych ar ôl eu materion eu hunain. Am fwy o wybodaeth am hyn, gweler taflen Cyngor Cyfreithiol Cymunedol, "Delio gyda Materion Rhywun Arall".

Pwy sy'n penderfynu a fyddaf yn cael y budd-dal neu beidio?

Swyddog, a elwir yn 'lluniwr penderfyniadau' yn aml, sy'n penderfynu a ydych yn gymwys i gael budd-dal, ac os ydych, faint fyddwch chi'n ei dderbyn. Byddwch yn cael y penderfyniad mewn llythyr, ac os na fyddwch yn deall y penderfyniad, gallwch ofyn am esboniad. Bydd y llythyr penderfyniad hefyd yn cynnwys manylion sut y gallwch herio'r penderfyniad ac a allwch apelio os nad ydych yn cytuno ag ef.

A allaf dderbyn budd-dal am gyfnod cyn i mi wneud fy nghais?

Os ydych yn gwneud cais yn hwyr, mae p'un a allwch gael budd-dal am gyfnod cyn y gallwch wneud cais (a elwir yn 'ôl ddyddio') yn dibynnu ar y budd-dal. Gellir ôl-ddyddio rhai budd-daliadau heb reswm, er enghraifft Credyd Treth Plant, Credyd Treth Gwaith, Budd-dal Plant, Lwfans Cynhaliwr, Budd-dal Analluogrwydd, Credyd Pensiwn a Phensiwn Gwladol. Gellir ôl-ddyddio Cymhorthdal Incwm a Lwfans Ceisio Gwaith am resymau penodol yn unig, er enghraifft oherwydd bod y llinellau ffôn yn brysur neu ddim yn gweithio, neu fe roddodd yr AGP (DWP) gyngor anghywir i chi.

Ni ellir ôl-ddyddio Lwfans Byw i'r Anabl a Lwfans Gweini. Gellir ôl-ddyddio Budd dal Tai a Budd-dal Treth Cyngor os oes gennych reswm da am beidio â gwneud cais yn gynharach, er na fydd angen i chi roi rheswm fel arfer os ydych chi neu eich partner yn 60 oed neu'n hŷn.

Os credwch y dylech fod wedi derbyn budd-daliadau am gyfnod cyn i chi wneud eich cais, dylech ofyn i'ch cais

gael ei ôl-ddyddio. Y cyfnod hiraf ar gyfer ôl-ddyddio budd-daliadau yw:

- ar gyfer y rhan fwyaf o fudd-daliadau, tri mis;
- ar gyfer Cymhorthdal Incwm a Lwfans Ceisio Gwaith, rhwng un a thri mis, yn ôl y rheswm am wneud cais yn hwyr; ac
- ar gyfer Budd-dal Tai, Budd-dal Treth Cyngor a Chredyd Pensiwn, 12 mis (er caiff hyn ei newid i dri mis yn Hydref 2008).

Dylech ddarganfod beth yw'r rheolau ar gyfer y budd-dal yr ydych yn ymgeisio amdano fel y gallwch roi eich rhesymau am ôl-ddyddio os oes angen.

Sut y byddaf yn cael fy nhalu?

Mae sut, pryd a pha mor aml y byddwch yn cael eich talu yn dibynnu ar y math o fudd-dal yr ydych yn ymgeisio amdano. Fel arfer fe delir eich budd-daliadau yn uniongyrchol i'ch cyfrif banc neu gymdeithas adeiladu neu gyfrif cerdyn y Swyddfa Bost. Gallech gael eich talu gyda siec a allwch ei newid yn Swyddfa'r Post pe byddai'n rhy anodd i chi reoli cyfrif neu os na allwch agor un yn unig.

Fel arfer rhaid talu credydau treth i mewn i gyfrif ac fe ofynnir i chi am fanylion eich cyfrif pan fyddwch yn ymgeisio am gredydau treth. Os nad oes gennych gyfrif banc, dylech allu agor cyfrif cerdyn arbennig y Swyddfa Bost, neu gyfrif banc sylfaenol, sydd ar gael mewn nifer o fanciau a chymdeithasau adeiladu.

Fel arfer bydd Tâl Mamolaeth, Tadolaeth a Mabwysiadu Statudol yn cael eu talu i chi gan eich cyflogwr a byddant yn ymddangos ar eich slip cyflog neu yn eich pecyn cyflog.

Gall Budd-dal Tai gael ei dalu'n uniongyrchol i chi neu i'ch landlord, neu i'ch cyfrif rhent os mai eich landlord yw'r lywodraeth leol sy'n talu Budd-dal Tai i chi. Fel arfer, telir Budd-dal Treth Cyngor drwy ostwng eich bil Treth Cyngor.

A oes raid i mi wneud rhywbeth wedi i mi ddechrau derbyn y budd-daliadau?

Mae hyn yn dibynnu ar ba fudd-daliadau yr ydych yn eu cael. Fel rheol gyffredinol, unwaith y byddwch yn derbyn budd-dal, rhaid i chi ddweud wrth yr asiantaeth sy'n talu i chi am unrhyw newidiadau yn eich amgylchiadau. Mae'r rhain yn cynnwys pethau fel os bydd eich incwm yn newid, os ydych yn gwahanu neu'n symun i mewn gyda'ch partner, neu os bydd un o'ch plant yn gadael yr ysgol.

Ar gyfer y Lwfans Ceisio Gwaith rhaid i chi gael cyfweliadau hefyd gydag ymgynghorydd personol a fydd yn ceisio eich helpu i gael gwaith. Bydd rhaid i chi ddangos eich bod yn ymdrechu i ddod o hyd i waith. Ar gyfer rhai budd-daliadau eraill, efallai y bydd rhaid i chi fynychu cyfweliadau gyda chynghorydd personol ynghylch gwaith a hyfforddiant. Mewn rhai achosion, efallai bydd rhaid i'ch partner fynychu

cyfweliadau ar wahân. Gellid gostwng eich budd-dal os na fyddwch chi neu eich partner yn mynychu'r cyfweliadau.

Ar gyfer Credyd Pensiwn, nid yw'n ofynnol i rai ymgeiswyr adrodd ar rai newidiadau yn eu hincwm am hyd at bum mlynedd, ond nid yw'r rheol hon yn berthnasol i bawb. Dylech ofyn am ragor o gyngor os ydych yn hawlio Credyd Pensiwn.

Ar gyfer credydau treth, mae'r rheolau parthed newidiadau mewn amgylchiadau yn wahanol i'r rhan fwyaf o fudd-daliadau eraill a dylech gael rhagor o gyngor. Os na fyddwch yn dweud wrth y Swyddfa Credyd Treth am ryw newid mewn pryd, efallai y bydd rhaid i chi dalu cosb neu efallai na fydd newidiadau o'ch plaid yn cael eu hôl-ddyddio'n llawn, neu'r ddau. Efallai hefyd y gor-delir credyd treth i chi y bydd yn rhaid i chi ei dalu'n ôl yn ddiweddarach. Cofiwch edrych ar y rheolau ar gyfer pob budd-dal unigol y byddwch yn ei dderbyn, gan y bydd un asiantaeth yn gofyn i chi roi gwybod iddynt am rai newidiadau tra na fydd un arall.

Beth fydd yn digwydd os derbyniaf ormod?

Os telir gormod o fudd-dal i chi, efallai y gofynnir i chi ei ad-dalu. Gall hyn ddigwydd os na fyddwch yn dweud wrth yr asiantaeth am newid yn eich amgylchiadau neu eich bod yn rhoi gwybodaeth anghywir iddynt - trwy gamgymeriad hyd yn oed.

Os yw'r broblem yn fwy difrifol, er enghraifft, os byddwch wedi dweud celwydd am eich amgylchiadau, fe ellir eich ymchwilio am dwyllo, ac fe ellir eich erlyn neu eich dirwyo.

Gall yr asiantaeth sy'n ymdrin â'ch cais wneud camgymeriad a thalu gormod o fudd-dal i chi. Ar gyfer y rhan fwyaf o fudd-daliadau nawdd cymdeithasol mae gennych hawl i apelio yn erbyn gorfod ad-dalu gordaliad. Ond yn achos credydau treth, nid oes gennych unrhyw hawl ffurfiol i apelio yn erbyn gorfod ad-dalu, ond yn unig, y posibilrwydd y gallai'r Swyddfa Credyd Treth ddileu peth neu'r cyfan o'r gordaliad os ydyw wedi gwneud camgymeriad. Fel rheol disgwylir i chi wirio'r rhybudd dyfarniad a'r taliadau a wneir i chi, a rhoi gwybod ynglŷn â chamgymeriadau o fewn mis. Os credwch na ddylech orfod ad-dalu gordaliad credyd treth, mae angen i chi lenwi ffurflen a elwir yn TC846, sydd ar gael yn y Swyddfa Credyd Treth, yn egluro pam. Os nad yw'r Swyddfa Credyd Treth yn derbyn eich dadl gallwch ofyn i gael talu'r arian ar raddfa is, a elwir yn 'gofyn am daliadau ychwanegol', er y bydd hyn yn cymryd mwy o amser. Os bu i chi dderbyn gordaliad ac nad ydych bellach yn hawlio credyd treth, efallai y gofynnir i chi hefyd dalu arian yn ôl fel lwmp swm. Os na allwch fforddio gwneud hynny, dylech egluro hyn i'r Swyddfa Credyd Treth a gofyn a allwch dalu'r arian dyledus dros gyfnod o amser.

Gallwch apelio yn erbyn penderfyniad credydau treth:

- sy'n ychwanegu llog at ordaliad credyd treth;
- sy'n gofyn i chi dalu cosb; neu
- os credwch fod cyfanswm eich credyd treth (ac felly eich gordaliad) yn anghywir.

Gallech hefyd gwyno os credwch yr achoswyd y gordaliad neu y'i gwaethygwyd oherwydd na wnaeth y Swyddfa Credyd Treth ymateb i wybodaeth neu oedi ailasesiad o'ch credyd treth. Dylech gael cyngor arbenigol bob amser os gofynnir i chi ad-dalu unrhyw fudd-dal nawdd cymdeithasol neu gredyd treth a or-dalwyd.

Beth os ydw i'n anghytuno gyda phenderfyniad ynglŷn â'm cais?

Gallwch herio penderfyniad ar fudd daliadau neu gredydau treth os credwch fod eich cais wedi cael ei wrthod ar gais neu os na chawsoch y swm cywir.

Os ydych am herio penderfyniad ar fudd-dal

Rhaid i chi gysylltu â'r asiantaeth a wnaeth y penderfyniad yn gyntaf a dweud wrthi mewn llythyr fod arnoch eisiau iddi edrych ar y penderfyniad eto. Dylech geisio cadw copi o'ch llythyr.

Os ydych am herio penderfyniad ar fudd-dal, mae'n syniad da cael cyngor arbenigol i sicrhau eich bod yn dweud popeth a all fod o gymorth i newid y penderfyniad wrth yr asiantaeth neu dribiwnlys apêl. Gweler 'Rhagor o gymorth' ar dudalen 22 i weld ble y gallwch gael cymorth arbenigol.

Os ydych am i asiantaeth ailedrych ar benderfyniad, fel arfer rhaid i chi wneud hyn o fewn mis i'r penderfyniad gwreiddiol. Gellir cynyddu'r cyfyngiad amser hwn i 13 mis mewn rhai achosion. Mewn sefyllfaoedd eraill (er enghraifft, os gwnaeth yr asiantaeth benodol gamgymeriad wrth benderfynu ar eich cais) nid oes cyfyngiad amser. Os ydyw'n newid y penderfyniad o'ch plaid chi, fel arfer telir y budd-dal o ddyddiad y penderfyniad gwreiddiol. Fodd bynnag, os oes yna derfyn amser, ac ni herioch y penderfyniad mewn pryd, gall y budd-dal gael ei dalu oddi ar y dyddiad pan ofynnoch chi i'r asiantaeth ailystyried y penderfyniad yn unig.

Os nad ydych yn hapus gyda'r penderfyniad newydd, gallwch ddal i apelio i dribiwnlys apêl. Dylech wneud hyn o fewn mis i'r penderfyniad newydd. Fodd bynnag, gallwch apelio ar unwaith os ydych yn dymuno, heb ofyn am i'r penderfyniad gael ei ailystyried yn gyntaf. Er enghraifft, os yw'r rhesymau pam fo'r penderfyniad yn anghywir yn gymhleth, efallai y byddai'n gyflymach i apelio.

Os ydych am herio penderfyniad ar gredyd treth

Wedi'r penderfyniad gwreiddiol ar eich cais am gredyd treth, gellir ei adolygu (ei newid) os bydd eich amgylchiadau'n

newid. Cofiwch, os na fyddwch yn rhoi adroddiad ar rai newidiadau mewn pryd, gall arwain at ddirwy, derbyn gordaliad neu at golli eich credyd treth.

Gallwch ofyn am adolygiad hefyd os gwnaeth y Swyddfa Credyd Treth gamgymeriad yn ei benderfyniad gwreiddiol. Ond ni allwch ofyn am adolygiad os gwrthodwyd eich cais neu os stopiwyd eich credyd treth.

Mae gennych hawl i apelio os:

- credwch chi fod y penderfyniad gwreiddiol yn anghywir;
- yw eich arian credyd treth yn cael ei stopio; neu os
- yw eich cais wedi ei wrthod.

Gennych 30 diwrnod o ddyddiad y penderfyniad i apelio. Os byddwch yn anghytuno gyda'r penderfyniad wedi'r adolygiad gallwch apelio yn erbyn hwn hefyd. Mae gennych 30 diwrnod o ddyddiad y penderfyniad diwygiedig.

Wedi i'r penderfyniad terfynol gael ei wneud ar eich cais, ar ddiwedd y flwyddyn drethiannol, gall y Swyddfa Credyd Treth holi eto a oedd eich cymhwyster yn gywir. Mae hawl i apelio ynghlwm wrth unrhyw benderfyniad a wneir o ganlyniad i ymholiadau o'r fath. Mae gennych 30 diwrnod ar ôl i'r penderfyniad gael ei wneud i apelio. Os gallwch ddangos bod y Swyddfa Credyd Treth wedi gwneud camgymeriad yn ei dyfarniad terfynol, gellir adolygu'r penderfyniad. Gallwch ofyn am hyn heb fod rhaid i chi apelio.

Sut gallaf fi apelio yn erbyn penderfyniad?

Gallwch apelio yn erbyn:

- penderfyniad gwreiddiol;
- penderfyniad terfynol; neu
- penderfyniad sydd wedi ei newid oherwydd eich bod wedi gofyn i'r asiantaeh ailedrych arno.

Y cyfyngiad amser arferol ar gyfer apelio yw mis o'r adeg pan wnaed y penderfyniad ar gyfer budd-daliadau nawdd cymdeithasol a 30 diwrnod ar gyfer credydau treth. Efallai y byddwch yn medru apelio hyd at flwyddyn wedi i'r cyfyngiad amser ddod i ben os:

- gallwch chi ddangos bod cyfle rhesymol i'ch apêl lwyddo; neu
- ei bod er budd 'cyfiawnder'. Mae hyn yn golygu petai rhywbeth difrifol yn digwydd (er enghraifft, roeddech yn wael, neu bu farw eich partner) a'i gwnaeth yn anodd i chi apelio o fewn y cyfnod penodedig arferol o fis neu 30 diwrnod.

Sut i apelio

Os ydych yn apelio, rhaid i chi ysgrifennu at y swyddfa a wnaeth y penderfyniad yr ydych yn apelio yn ei erbyn. Mae gan yr Adran Gwaith a Phensiynau, y Swyddfa Credyd Treth, Swyddfa Budd-dal Plant a'ch awdurdod lleol eu ffurflenni apelio eu hunain y dylech ei lenwi os gallwch wneud hynny. Os na allwch gael ffurflen, byddant yn derbyn llythyr.

Mae angen i'r ffurflen neu'r llythyr apêl ddisgrifio'r penderfyniad yr ydych yn apelio yn ei erbyn a'r prif rheswm pam y credwch ei fod yn anghywir.

Wedi i chi apelio yn erbyn penderfyniad budd-dal nawdd cymdeithasol, bydd lluniwr penderfyniadau yn ailedrych ar y penderfyniad i weld a ddylid ei newid. Os na newidir y penderfyniad o'ch plaid chi, bydd yn mynd i dribiwnlys apêl yn awtomatig. Ar gyfer credydau treth, gall y Swyddfa Credyd Treth benderfynu setlo'r achos gyda chi cyn cynnal gwrandawiad.

Os yw eich apêl yn mynd i dribiwnlys apêl, mae gennych ddewis:

- mynd i wrandawiad llafar, ble y gallwch gyflwyno'ch achos yn bersonol, neu
- adael i'r tribiwnlys benderfynu eich achos ar eich ffurflen gais a'r ffurflen neu'ch llythyr apêl.

Mae hi fel arfer yn well mynd i wrandawiad llafar ble y gallwch esbonio eich achos o flaen y tribiwnlys. Gallwch fynd â rhywun gyda chi os dymunwch ac mae'n well os oes gan y rhywun hwn arbenigedd cyfreithiol. Rhaid i chi adael i'r tribiwnlys wybod pa fath o wrandawiad ydych chi'n dymuno ei gael, fel arall mae'n bosib na chlywir eich gwrandawiad o gwbl.

Sut mae'r tribiwnlys apêl yn gweithio?

Mewn tribiwnlys apêl, gallwch esbonio pam eich bod yn meddwl y dylid newid y penderfyniad. Bydd y tribiwnlys yn cynnwys cyfreithiwr neu fargyfreithiwr ac weithiau feddyg, cyfrifydd neu berson gyda phrofiad o faterion ynglŷn ag anabledd os bydd angen hynny. Bydd y nifer a'r math o bobl fydd ar y tribiwnlys yn dibynnu ar y math o gwestiwn y maent yn edrych arno. Efallai y bydd cynrychiolydd o'r AGPh, y Swyddfa Credyd Treth, Swyddfa Budd-dal Plant neu awdurdod lleol hefyd yno. Byddant yn cyflwyno achos yr asiantaeth sydd wedi gwneud y penderfyniad.

Fel arfer bydd y tribiwnlys yn gwneud penderfyniad ar yr un diwrnod, a bydd yn rhoi esboniad ysgrifenedig i chi am y penderfyniad. Gall hefyd roi datganiad llawn i chi o'r rhesymau dros ei benderfyniad (y 'penderfyniad llawn'), neu gallwch ysgrifennu i ofyn am hwn o fewn un mis o wneud y penderfyniad. Dylech ofyn am y penderfyniad llawn os credwch y byddwch eisiau herio'r penderfyniad.

Fel arfer mae penderfyniad y tribiwnlys apêl yn derfynol. Gallwch apelio ymhellach, i'r Comisiynwyr Nawdd Cymdeithasol, ond yn unig ar 'bwynt cyfraith', er enghraifft os:

- yw tribiwnlys yn camddehongli'r gyfraith;
- nad oes tystiolaeth i gefnogi'r penderfyniad;
- nad yw'r tribiwnlys yn rhoi casgliad clir ar ffeithiau'r achos; neu
- nad yw'r tribiwnlys yn darparu rhesymau digonol dros ei benderfyniad.

Os yw'r asiantaeth yn apelio, fel arfer ni fydd yn talu eich budd-dal neu gredyd treth i chi tan y clywir yr apêl. Unwaith y bydd Comisiynydd wedi barnu achos, gallwch apelio i'r Llys Apêl, ac yn olaf i Dŷ'r Arglwyddi, ond ar bwyntiau cyfreithiol pwysig yn unig.

Os nad oes gennych hawl i apêl bellach, efallai y gallwch herio penderfyniad trwy broses o'r enw 'adolygiad barnwrol'. Ond mae hyn yn gymhleth, a bydd arnoch angen cyngor cyfreithiol arbenigol i wneud hyn.

Beth os ydw i wedi cael fy nhrin yn wael?

Efallai y byddwch yn anhapus gydag asiantaeth sydd wedi bod yn ymdrin â'ch budd-daliadau, oherwydd:

- y credwch eich bod wedi cael eich trin yn annheg;
- y credwch eich bod wedi cael cyngor gwael; neu
- bod y gwasanaeth wedi bod yn wael, er enghraifft oherwydd oedi neu gamgymeriadau.

Gallwch gwyno yn gyntaf wrth yr asiantaeth trwy ysgrifennu atynt i roi cyfle iddynt esbonio ac ymddiheuro neu eich digolledu. Mae gan bob asiantaeth drefn gwyno a gallwch ofyn am wybodaeth am hyn.

Gallwch gwyno p'un a ydych am herio penderfyniad ai peidio.

Os ydych yn anhapus gydag ymateb yr asiantaeth i'ch cwyn, mae'n bosibl y gallwch fynd â'ch achos ymhellach:

- Os ydych yn anhapus am y ffordd y mae eich cyngor lleol wedi ymdrin â'ch budd-daliadau, cysylltwch â'r Ombwdsmon Llywodraeth Leol.
- Os ydych am gwyno am Gyllid a Thollau Ei Mawrhydi (ynghylch problemau credydau treth, Budd-dal Plant, Cronfa Ymddiriedolaeth Plentyn neu Yswiriant Gwladol), cysylltwch â Swyddfa'r Dyfarnwr Annibynnol.
- Ar gyfer cwynion am yr Adran Gwaith a Phensiynau, cysylltwch â'r Archwiliwr Achosion Annibynnol (AAA). Yn hytrach na chysylltu â'r AAA, neu os ydych yn anhapus â'r modd y mae'r AAA yn delio â'ch cwyn, gallwch gysylltu â'ch Aelod Seneddol (AS), a all eich helpu i ymgeisio at yr Ombwdsman Seneddol (y Comisiynydd Seneddol dros Weinyddu).

Fodd bynnag, gall y cyrff hyn edrych ar achosion ble nad yw eich cais neu'ch cwyn wedi'i drin yn gywir yn unig. Ni allwch gwyno iddynt oherwydd eich bod yn anghytuno gyda'u penderfyniad yn unig.

Y Ddeddf Hawliau Dynol

Os ydych chi'n anhapus ynglŷn â'r ffordd yr ydych chi neu eich teulu yn cael eu trin yn y system fudd-daliadau neu apêl, gallwch herio'r rheolau ar fudd-daliadau eu hunain (yn hytrach na'r union benderfyniad a wnaed, neu'r ffordd yr ymdriniwyd â'r achos). Mae'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol yn rhoi llawer o hawliau i chi gan gynnwys hawl i:

- fwynhau eich eiddo yn heddychlon. Gall hyn gynnwys budd-daliadau ar sail cyfraniadau a wnaed gennych, fel cyfraniadau yswiriant gwladol;
- fwynhau parch i fywyd teuluol; ac
- i gael gwrandawiad teg mewn unrhyw anghydfod.

Mae'r Ddeddf Hawliau Dynol yn gwneud yr hawliau hyn yn rhan o gyfraith y DU, sy'n golygu y gallwch ddefnyddio'r dadleuon hyn wrth herio penderfyniad ynglŷn â budd-dal. Fodd bynnag, mae herio rheolau budd-daliadau yn gam cymhleth i'w gymryd, ac nid yw'n un y dylech ei gymryd heb gyngor cyfreithiol arbenigol. Am ragor o wybodaeth am hyn, gweler taflen Cyngor Cyfreithiol Cymunedol 'Y Ddeddf Hawliau Dynol'.

Rhagor o gymorth

Cyngor Cyfreithiol Cymunedol

Maen darparu gwybodaeth am ddim yn uniongyrchol i'r cyhoedd ar ystod o broblemau cyfreithiol cyffredin.

Ffoniwch: 0845 345 4 345.

Os oes gennych hawl i gymorth cyfreithiol, gallwch hefyd gael cyngor am ddim gan ymgynghorydd cyfreithiol arbenigol am fudd-daliadau a chredydau treth, dyled, addysg, gwaith a thai. Gallwch hefyd ddod o hyd i ymgynghorydd cyfreithiol neu gyfreithiwr lleol.

Ewch i: www.communitylegaladvice.org.uk am fwy o wybodaeth.

Cyngor Ar Bopeth

Rhestrir eich canolfan Cyngor Ar Bopeth leol yn y llyfr ffôn.

www.citizensadvice.org.uk

Age Concern

ffôn: 0800 009 966

www.ace.org.uk

Gwefan Directgov

Maer wefan hon yn rhoi mwy o wybodaeth ynghylch budd-daliadau unigol a chredydau treth a gellir cael ffurflenni cais ar-lein.

www.direct.gov.uk

Yr Adran Gwaith a Phensiynau

www.dwp.gov.uk

Canolfan Byd Gwaith

Caiff swyddfeydd y Ganolfan Byd Gwaith eu rhestru yn y llyfr ffôn.

www.jobcentreplus.gov.uk

Y rhif cenedlaethol ar gyfer gwneud cais yw 0800 055 6688.

Y Gwasanaeth Pensiynau, Anabledd a Gofalwyr

Llinell Ymholiadau Budd-daliadau (ar gyfer pobl anabl, eu gofalwyr a'u cynrychiolwyr): 0800 882200

I ganfod manylion eich canolfan bensiynau leol, ffoniwch: 0845 606 0265

Am Bensiwn Gwladol

ffoniwch: 0845 300 1084

Am Gredyd Pensiwn

ffoniwch: 0800 99 1234

Am Lwfans Gofalwr

ffoniwch: 01253 856 123

Am Lwfans Gweini a Lwfans Byw i'r Anabl

ffoniwch: 08457 123 456

Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi (CThEM)

Gweler 'HMRC' yn y llyfr ffôn am fanylion am ganolfannau ymholiadau lleol

www.hmrc.gov.uk

Llinell Gymorth Credydau Treth: 0845 300 3900

Swyddfa Budd-dal Plant: 0845 302 1444

Cronfa Ymddiriedolaeth Plentyn

ffôn: 0845 302 1470

www.childtrustfund.gov.uk

DIAL UK

Rhwydwaith o ganolfannau cynghori i bobl gydag anableddau.

ffôn: 01302 310 123

www.dialuk.info

Y Gwasanaeth Cyfraith Anabledd

ffôn: 020 7791 9800

www.dls.org.uk

Dyfarnwr annibynnol

ffôn: 0300 057 1111 or 020 7667 1832

www.adjudicatorsoffice.gov.uk

Asiantaeth y Cyn-filwyr a Phersonél Gwasanaethau

ffôn: 0800 169 2277

www.veterans-uk.info

Y Gwasanaeth Tribiwnlysoedd

Am wybodaeth gyffredinol ynglŷn â thribiwnlysoedd apeliadau.

www.tribunals.gov.uk

Swyddfa'r Gwarcheidwad Cyhoeddus

ffôn: 0845 330 2900

www.publicguardian.gov.uk

Y Gwasanaeth Cyfreithiol Cymunedol

Sefydlwyd y Gwasanaeth Cyfreithiol Cymunedol i helpu i ddod o hyd i'r wybodaeth a'r cyngor cyfreithiol cywir i ddatrys eich problemau.

Gallwch gael help trwy rwydwaith cenedlaethol o sefydliadau gan gynnwys y canolfannau Cyngor ar Bopeth, Canolfannau'r Gyfraith, nifer o ganolfannau cynghori annibynnol a miloedd o gyfreithwyr ar y stryd fawr. Maer holl wasanaethau hyn yn bodloni safonau ansawdd a osodwyd gan y Comisiwn Gwasanaethau Cyfreithiol. Chwiliwch am logo'r Gwasanaeth Cyfreithiol Cymunedol, a welir isod.

Mae llawer o'r cyrff yn cynnig rhai neu'r cyfan o'u gwasanaethau am ddim. Os na allwch fforddio talu am gyngor efallai y byddwch yn gymwys i dderbyn cymorth ariannol trwy'r Gronfa Gwasanaeth Cyfreithiol Cymunedol (cymorth cyfreithiol). Gallwch archebu taflenni am ariannu gan linell daflenni'r LSC ar 0845 3000 343. Gallwch hefyd ddefnyddio cyfrifydd cymhwyster Cymorth Cyfreithiol ar wefan Galw Gwasanaeth Cyfreithiol Cymunedol ar www.communitylegaladvice.org.uk

Gwasanaeth Cyfreithiol Cymunedol

Y Comisiwn Gwasanaethau Cyfreithiol (LSC)

Rheolir y Gwasanaeth Cyfreithiol Cymunedol a Chronfa'r Gwasanaeth Cyfreithiol Cymunedol gan y Comisiwn Gwasanaethau Cyfreithiol. Er mwyn cael gwybod rhagor amdanom ni ewch i'n gwefan ar www.legalservices.gov.uk neu chwiliwch am fanylion eich swyddfa Comisiwn Gwasanaethau Cyfreithiol yn lleol yn y llyfr ffôn.

COMISIWN gwasanaethau cyfreithiol

Mae'r taflenni ar gael ar-lein hefyd ar: **www.communitylegaladvice.org.uk**

1 Delio â dyled
2 Cyflogaeth
3 Ysgaru a gwahanu
4 Rhentu a gosod
5 Prynu a gwerthu eiddo
6 Colli eich cartref
7 Y Ddeddf Hawliau Dynol
8 Ceisio lloches
9 Budd-daliadau lles
10 Ewyllysiau a Phrofiant
11 Delio â'r heddlu
12 Achosion dim-ennill, dim-ffi
13 Problemau gyda nwyddau a gwasanaethau
14 Damweiniau meddygol
15 Cyfle cyfartal
16 Gwahaniaethu ar sail Hil
17 Niwed personol
18 Hawliau i bobl anabl
19 Gofal yn y gymuned
20 Addysg
21 Mewnfudo a dinasyddiaeth
22 Hawliau Iechyd meddwl
23 Dewisiadau Amgen na'r llys
24 Cymedroli Teuluol
25 Feteraniaid
26 Trais, Camdriniaeth ac Aflonyddu Domestig
27 Byw Gyda'ch Gilydd a'ch Hawliau os byddwch yn Gwahanu
29 Gweithdrefnau Gofal
30 Anghydfodau Cymdogaeth a Chymuned
31 Newid eich Enw

Arweinlyfrau Cynghori

G1 Arweinlyfr Cam-wrth-Gam i Ddewis Ymgynghorydd Cyfreithiol
G2 Arweinlyfr Cam-wrth-Gam i Gymorth Cyfreithiol

Mae'r taflenni ar gael ar ffurf Braille a Sain hefyd.
Er mwyn archebu unrhyw un o'r taflenni hyn cysylltwch â llinell daflenni'r LSC ar 0845 3000 343 neu anfonwch e-bost at LSCLeaflets@ecgroup.co.uk neu Ffacs 020 8867 3225.

Cyhoeddwyd y daflen hon gan y Comisiwn Gwasanaethau Cyfreithiol (LSC). Fei hysgrifennwyd ar y cyd Rachel Hadwen, arbenigwraig mewn hawliau lles.

LSC009W